Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Fframwaith Ansawdd ar gyfer y Sector Addysg Drydyddol yng Nghymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cyflwyniad

1. Mae Medr yn ymrwymedig, trwy ei Gynllun Strategol, i sicrhau bod dysgwyr yn cael y ddarpariaeth o'r ansawdd gorau mewn sector addysg drydyddol sy'n ymegnïo i wella'n barhaus. Mae'r Fframwaith Ansawdd (y Fframwaith) yn elfen allweddol o ran helpu Medr i gyrraedd y nod yma, ac fe'i datblygwyd i gyd-fynd â'i ddull rheoleiddio. Cyfrwng ydyw i helpu i gyflawni ar draws ehangder dyletswyddau Medr gan gynnwys hybu cydlyniad a chydweithio a gwelliant parhaus, fel rhan o system reoleiddio Medr.

2. Rydym yn diffinio gwella'n barhaus fel y broses barhaus lle mae darparwyr yn defnyddio hunanwerthuso, data, dadansoddi a gwybodaeth i ymdrechu am ragoriaeth barhaus. Mae'n ailadroddus, a gall gynnwys mynd i'r afael â diffygion a gwneud newidiadau fesul tipyn i ddeilliannau dysgwyr dros amser. Mae darparwyr addysg uwch fel arfer yn cyfeirio at y gweithgarwch hwn fel gwella. Barn Medr yw bod gwelliant parhaus yn cyd-fynd â'r broses o wella yn yr amgylchedd addysg uwch.

3. Mae'r Fframwaith yn nodi polisi ac arfer mewn perthynas ag ansawdd addysg drydyddol a hyfforddiant a ddarperir gan neu ar ran darparwyr sydd wedi'u cofrestru gyda Medr a/neu a gyllidir ganddo, fel y nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (y Ddeddf). Dylid ei ddarllen ar y cyd â Chynllun Strategol Medr, ei Ddatganiad Ymyrryd, ac unrhyw gyngor a chanllawiau penodol neu gyffredinol a ddyroddir gan Medr fel y bo'n briodol. Mae'n cydnabod yr ystod o ofynion ansawdd presennol sy'n berthnasol i wahanol rannau o'r sector addysg drydyddol, a'i nod yw lleihau unrhyw ddyblygu i'r eithaf trwy sicrhau bod darparwyr yn gallu defnyddio'r gweithgareddau presennol hynny fel tystiolaeth o gydymffurfio â'r fframwaith (**Atodiad 1**).

4. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Medr fonitro a hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg drydyddol a ddarperir gan neu ar ran darparwr cofrestredig, neu a gyllidir neu a sicrhawyd fel arall gan Medr (y Ddeddf, Adran 51). Mae hyn yn cwmpasu addysg bellach, addysg uwch, dysgu oedolion yn y gymuned, prentisiaethau a darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir. Felly, mae'r ddyletswydd hon yn gymwys i'r holl ddarpariaeth gan ddarparwyr addysg drydyddol sydd wedi'u cofrestru a/neu a gyllidir, gan gynnwys yr hyn a ddarperir ar eu rhan trwy drefniadau is-gontractio (e.e. trefniadau breiniol). Mae'n cynnwys darpariaeth a roddir y tu allan i Gymru, megis addysg drawswladol wedi'i his-gontractio, campysau tramor, a darpariaeth a roddir mewn gwledydd eraill yn y DU.[1] Mae'n berthnasol yn gyfartal i ddarpariaeth Saesneg a Chymraeg.[2] Bydd Medr fel arfer yn ymgysylltu â'r corff a gyllidir a/neu sydd wedi'i gofrestru. Mae hyn yn golygu, yn achos chweched dosbarth, bod Medr yn disgwyl ymgysylltu trwy awdurdodau lleol. Felly, dylid darllen cyfeiriadau yn y ddogfen hon at "gorff llywodraethu (neu gyfwerth)" fel cyfeiriadau at ei strwythurau llywodraethu a sicrhau sefydledig ar gyfer addysg ôl-16.

5. Mae dull asesu a gwella ansawdd Medr yn cyd-fynd â'i fframwaith rheoleiddio a chyllido ar y cyfan (Ffigur 1) ac mae wedi'i fwriadu i helpu i gyrraedd y nodau yn ei Gynllun Strategol, sy'n ystyried Datganiad o Flaenoriaethau Strategol cysylltiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi, a'r

---

[1] Mae gan Medr hefyd amod ar wahân i ddarparwr dilysu fodloni ei hun ynghylch ansawdd yr addysg sy'n arwain at ddyfarnu cymhwyster o dan drefniadau o'r fath

[2] Darpariaeth a gyflwynir yn rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, ar hyd continwwm yr iaith Gymraeg

dyletswyddau strategol a osodir ar Medr. Lle y bo'n bosibl, bydd monitro ac ymyrryd mewn perthynas ag ansawdd yn cael eu hintegreiddio fel rhan o brosesau ehangach Medr.

### *Ffigur 1. Fframwaith Rheoleiddio*

| Amodau Cofrestru | | Amodau Cyllido |
|---|---|---|
| Cychwynnol | Parhaus | Cyllid |
| Cynaliadwyedd Ariannol | Cynaliadwyedd Ariannol | Cynaliadwyedd Ariannol |
| Llywodraethu a Rheoli | Llywodraethu a Rheoli | Llywodraethu a Rheoli |
| Ansawdd | Ansawdd | * Ansawdd |
| Lles Staff a Dysgwyr | Lles Staff a Dysgwr | Lles Staff a Dysgwyr |
| | Y Gymraeg | Y Gymraeg |
| | Cynllun Diogelu Dysgwyr | Cynllun Diogelu Dysgwyr |
| | Cod Ymgysylltu â Dysgwyr | ** Cod Ymgysylltu â Dysgwyr |
| | Cyfle Cyfartal | Cyfle Cyfartal |
| | Gweithdrefnau Cwynion | Gweithdrefnau Cwynion |
| | Sylw i Gyngor ac Arweiniad | Sylw i Gyngor ac Arweiniad |
| | Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad | Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad |
| Trefniadau Dilysu | Trefniadau Dilysu | |
| Statws Elusennol (Categori Craidd AU yn Unig) | Statws Elusennol (Categori Craidd AU yn Unig) | |
| Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr | Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr | |
| | Terfynau Ffioedd (Categori Craidd AU yn Unig) | |
| | Hysbysu am Newidiadau sy'n effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth | |
| | Statws fel Darparwr Addysg Drydyddol yng Nghymru | |

- melyn – amodau cofrestru sydd hefyd yn amodau cyllido ar gyfer darparwyr nad ydynt wedi'u cofrestru
- gwyrdd - amodau cofrestru yn unig (h.y. nid amodau cyllido)

- Mae awdurdodau lleol yn atebol am yr amod ar Ansawdd a Gwelliant Parhaus ar gyfer eu darpariaeth chweched dosbarth a gynhelir. Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion sydd â chweched dosbarth gydymffurfio â'r gofynion sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr. Dyma'r unig amodau sy'n berthnasol i ddarpariaeth chweched dosbarth.

6. Mae'r Fframwaith hwn yn cydnabod yr ystod o ddogfennau a fframweithiau eraill sy'n gymwys i ddarparwyr. Mae hefyd yn cydnabod bod disgwyl i ddarparwyr gydymffurfio ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth a gofynion, gan gynnwys:

   - Deddf Cydraddoldeb 2010
   - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
   - Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025
   - Safonau'r Gymraeg (o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a gofynion deddfwriaethol eraill)
   - Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)
   - Amodau cofrestru neu gyllido
   - Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru[3], fel y bo'n berthnasol
   - Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, fel y bo'n berthnasol

7. Mae **Atodiad 1** yn nodi deddfwriaeth a chanllawiau ychwanegol sy'n ymwneud ag ansawdd, sy'n benodol i bob rhan o'r sector addysg drydyddol, er nad yw hyn wedi'i fwriadu i fod yn gynhwysfawr.

8. Trwy'r ein dull o ymdrin ag ansawdd, nod Medr yw lleihau i'r eithaf y baich a osodir ar ddarparwyr gan hefyd sicrhau profiad cyson ac o ansawdd da i ddysgwyr ar draws pob rhan o'r sector addysg drydyddol, gan gynnwys cysondeb â dulliau ansawdd yng ngwledydd eraill y DU ac yn rhyngwladol lle y bo'n briodol. Felly, bwriedir i'r Fframwaith gyd-fynd â'r mecanweithiau presennol a'r safonau sefydledig, gan gynnwys y rhai a nodir gan Estyn, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch, Cymwysterau Cymru i gefnogi golwg integredig ar ansawdd a beth mae hyn yn ei olygu yng nghyd-destun addysg drydyddol.

9. Mae Medr yn amcanu at hybu cysondeb a chydlyniad ar draws y sector addysg drydyddol, a lleihau dyblygu, gan hefyd gydnabod bod gwahaniaethau o ran sut y bydd dulliau ansawdd yn cael eu rhoi ar waith ar draws y sector trydyddol. Mae hyn yn golygu y bydd angen i ddarparwyr ystyried sut y gallant gyd-fynd â'r Fframwaith yng nghyd-destun eu cenhadaeth a'u darpariaeth eu hunain. Mae tirwedd addysg drydyddol yn gymhleth a deinamig, gan olygu ei bod yn ofynnol i'r Fframwaith fod yn gadarn a gallu addasu i sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth yn cael ei gynnal hyd yn oed mewn cyfnodau sy'n heriol iawn.

10. Bydd Pwyllgor Ansawdd Medr, a sefydlwyd fel un o ofynion y Ddeddf, yn cynghori ei Fwrdd ynghylch ansawdd yr holl addysg drydyddol a gyllidir neu a sicrheir gan Medr. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am roi system reoleiddio Medr ar waith ac am ei gweithredu.

[3] Mae'r cod yn ymwneud ag ysgolion, addysg bellach ac awdurdodau lleol, ond mae Medr yn annog pob darparwr i ystyried sut y gallant ystyried y Cod yn eu cyd-destun eu hunain

## Cefndir

11. Mae Adran 50 y Ddeddf yn nodi y gall Medr gyhoeddi fframweithiau sicrhau ansawdd, sy'n nodi polisi ac arfer mewn perthynas â'r canlynol:

- meini prawf ar gyfer asesu ansawdd addysg drydyddol
- prosesau ar gyfer asesu ansawdd addysg drydyddol
- rolau a chyfrifoldebau –
    - pobl sy'n asesu ansawdd addysg drydyddol
    - darparwyr addysg drydyddol lle mae ansawdd addysg drydyddol yn y cwestiwn
    - unrhyw bobl eraill y mae Medr yn eu hystyried yn briodol lle mae ansawdd addysg drydyddol yn y cwestiwn
- ystyried barn dysgwyr ynghylch ansawdd yr addysg drydyddol a gânt
- datblygiad proffesiynol aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol
- unrhyw fater arall y mae Medr yn ei ystyried yn briodol lle mae ansawdd addysg drydyddol yn y cwestiwn.

12. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi Datganiad o Flaenoriaethau Strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaeth i wneud y canlynol:

***'Cynnal a gwella ansawdd y system drydyddol, parhau a dwysáu gwaith ar ehangu cyfranogiad a chymryd camau i sicrhau system fwy teg a rhagorol i bawb***

- *gosod targedau uchelgeisiol sy'n anelu at safonau uchel, gan aros o fewn safonau ansawdd rhyngwladol i gynnal enw da'r system drydyddol yn rhyngwladol a chydnabod y rôl y mae cyrff eraill yn ei chwarae wrth wella ansawdd y system drydyddol*
- *meddu ar ddull o wella ansawdd sy'n cydnabod amrywiaeth y ddarpariaeth a chymryd camau cadarn lle nad yw gofynion sylfaenol o ran ansawdd yn cael eu bodloni, gan ystyried bob amser sut y gellid gwella profiad y dysgwr trwy bartneriaeth a chydweithio*
- *defnyddio data i nodi anghydraddoldebau yn y system drydyddol a chyflwyno ymateb a fydd yn cynnwys gosod targedau a chamau gweithredu uchelgeisiol ar gyfer darparwyr i leihau'r annhegwch o ran mynediad at addysg drydyddol, cynyddu amrywiaeth y myfyrwyr sy'n cael eu derbyn pan fo hynny'n isel a lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad'*

13. Mae'r datganiad hefyd yn cynnwys ymrwymiad i wneud y canlynol:

*'Datblygu cynllun i … wella'r ddarpariaeth … o addysg a gwaith asesu cyfrwng Cymraeg yn y system drydyddol gyfan.'*

**Cwmpas ansawdd**

14. Y diffiniad o ansawdd annigonol yn y Ddeddf yw ansawdd nad yw'n ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol y rhai sy'n cael yr addysg neu'n gwneud y cwrs (Adran 52).

15. At ddibenion cylch gwaith Medr a chwmpas ei weithgareddau, rydym yn ystyried bod anghenion rhesymol y dysgwr yn cwmpasu pob agwedd ar brofiad dysgu'r unigolyn sydd o fewn rheolaeth y darparwr. Gall yr anghenion rhesymol, a/neu'r elfennau sy'n ffurfio'r anghenion hynny newid dros amser, neu fod ar wahanol lefelau o aeddfedrwydd ar draws gwahanol rannau o'r sector. Felly rydym yn disgwyl i'n cyd-ddealltwriaeth am y cwmpas hwn esblygu.

16. Mae'r Amod Ansawdd a Gwelliant Parhaus yn nodi'r gofyniad i ddarparwyr ddangos bod eu darpariaeth o ansawdd da. Rydym yn ystyried mai ystyr addysg o ansawdd da yw addysg sy'n diwallu anghenion rhesymol dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg. Dangosir addysg o ansawdd da trwy ddeilliannau cadarnhaol ar gyfer dysgwyr, yng nghyd-destun amrywiaeth y sector a'r corff dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys:

- cwblhau cwrs, ennill cymwysterau, a dilyniant i gyflogaeth neu astudiaethau pellach
- profiad addysgu a dysgu da, fel y dangosir gan ymgysylltiad dysgwyr a boddhad â'u haddysg
- mynd ar drywydd gwelliant parhaus drwy hunanasesu effeithiol ac ymateb i adborth

17. Ystyrir bod addysg sy'n dangos y nodweddion hyn yn werth da am arian.

18. Mae'r diffiniad hwn o ansawdd yn cwmpasu'r meysydd blaenoriaeth canlynol:

- gweithgareddau i sicrhau cydymffurfedd â safonau trothwy (h.y. disgwyliadau gofynnol)
- gweithgareddau sy'n hybu gwelliant, uchelgais ac arloesi
- ansawdd ar lefel y system, yn ogystal â lefel y darparwr unigol
- Dysgu a datblygiad proffesiynol cychwynnol a pharhaus ar gyfer aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol[4]

19. Mae'r gweithgareddau sy'n ategu deilliannau da ar gyfer dysgwyr yn cynnwys y canlynol gan ddarparwyr:

- goruchwyliaeth ar ansawdd yr addysgu, gan gynnwys dylunio a darparu'r cwricwlwm
- dylunio a/neu ddarparu asesiadau i ategu cyflawniad dysgwyr
- ansawdd cymorth ar gyfer dysgu i alluogi dysgwyr i wneud y canlynol:
    - llwyddo ni waeth beth fo'u cefndir neu nodwedd warchodedig
    - camu ymlaen ar ôl cwblhau eu rhaglen astudio, gan gynnwys

[4] Mae Adran 5 (3) yn nodi aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol i fod yn athrawon personau sy'n derbyn addysg drydyddol, personau sy'n darparu cymorth i athrawon o'r fath, a phersonau sy'n darparu cymorth i ddysgwyr i gymryd rhan mewn addysg drydyddol.

cyflogadwyedd a pharatoi ar gyfer gyrfa
    - dysgu'n dda, gan gynnwys cefnogi eu llesiant a'u lles[5]

- trefniadau i hybu ymgysylltiad dysgwyr â'u dysgu, a deall eu bodlonrwydd ar eu profiad dysgu
- cymorth i ddysgwyr sy'n dymuno dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, neu ddefnyddio'r Gymraeg a/neu ddysgu Cymraeg.

20. Yn dilyn ymgynghoriad, bydd Medr yn defnyddio mesurau perfformiad darparwyr i lywio ei ystyriaeth o ansawdd.

**Egwyddorion**

21. Mae'r memorandwm esboniadol ar gyfer y Ddeddf yn nodi mai'r 'bwriad wrth ddatblygu fframwaith ansawdd fydd nodi egwyddorion cyffredin ar gyfer deall, asesu a gwella ansawdd y ddarpariaeth ar draws y sector addysg drydyddol yng Nghymru.' Datblygwyd yr egwyddorion isod yn y cyd-destun hwn. Maent yn cyd-fynd â dull rheoleiddio Medr ac yn nodi disgwyliadau Medr ohono'i hun ac o ddarparwyr.

22. Mae'r egwyddorion fel a ganlyn:

    i. **Ymreolaeth a chyfrifoldeb darparwyr am ansawdd a safonau:** O dan y Ddeddf (Adran 17-18), mae'n ofynnol i Medr ystyried pwysigrwydd ymreolaeth sefydliadol a rhyddid academaidd. Rydym yn cydnabod bod gan ddarparwyr ymreolaeth a chyfrifoldeb am ansawdd a safonau, ac rydym yn dangos hyn trwy gael prosesau ar waith ar gyfer hunanwerthuso trylwyr, rheoli perfformiad, a chynllunio ar gyfer gwelliant.
    ii. **Cysondeb canlyniadau dysgwyr:** Nod Medr yw cyflawni ansawdd sy'n gyson yn dda ar gyfer dysgwyr (gweler paragraff 16) ar draws pob rhan o'r sector addysg drydyddol gan gynnwys pob cyfrwng darparu (Saesneg a/neu Gymraeg), gan gydnabod y bydd prosesau ansawdd, a'r cymorth sydd ar gael i wahanol ddysgwyr, yn amrywio o ystyried amrywiaeth y sector, demograffeg dysgwyr, ac anghenion grwpiau o ddysgwyr.
    iii. **Seiliedig ar dystiolaeth:** Mae ymagwedd Medr at ansawdd yn seiliedig ar dystiolaeth (e.e. trwy ddefnyddio data, gwybodaeth, arolygon ac asesiadau ansawdd allanol), gyda rhagdybiaeth o blaid tryloywder wrth gyhoeddi mesurau a thystiolaeth mewn perthynas â pherfformiad. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu dadansoddiad mwy manwl gyda darparwyr lle bo'n briodol.
    iv. **Cadarn, seiliedig ar risg a chymesur:** mae'r ymagwedd yn taro cydbwysedd rhwng galluogi Medr i wneud penderfyniadau tryloyw ar y naill law a lleihau biwrocratiaeth i'r eithaf ar y llaw arall.
    v. **Sefydlogrwydd a chysondeb:** mae dysgwyr a darparwyr yn deall y safonau y mae'n rhaid eu cyrraedd a'r disgwyliadau y mae'n rhaid cwrdd â hwy ar draws y sector, tra bo'r ymagwedd hefyd yn darparu ar gyfer esblygu ac arloesi dros amser trwy werthuso, adolygu ac ymgynghori.
    vi. **Dull cydgysylltiedig â rheoleiddwyr eraill:** mae Medr yn mabwysiadu dull cydgysylltiedig â rheoleiddwyr eraill fel bod ein gweithgareddau yn ategu'r cyd-destun rheoleiddiol ehangach y mae darparwyr yn gweithredu ynddo ac yn

[5] Mae'n ofynnol dan y Ddeddf bod amodau cofrestru neu gyllid Medr yn cynnwys amod sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd trefniadau'r darparwr ar gyfer cefnogi a hybu lles ei fyfyrwyr a staff. Mae Medr yn dehongli 'lles' yn unol â'r memorandwm esboniadol ar gyfer y Ddeddf. Eglurir hyn yn Fframwaith Rheoleiddio Medr.

ychwanegu gwerth ato.

**Meini prawf ar gyfer asesu ansawdd addysg**

23. Mae gan y fframwaith set o gonglfeini, sef y meini prawf y mae Medr yn credu sy'n dangos bod darpariaeth o ansawdd ac rydym yn disgwyl iddynt lywio deilliannau da ar gyfer dysgwyr. Mae Medr o'r farn bod y conglfeini hyn yn cyfrannu at wella deilliannau a chyrchfannau dysgwyr. Mae'r iaith Gymraeg wedi'i hymgorffori ym mhob un o'r conglfeini.

24. Mae'r conglfeini fel a ganlyn:

i. **Ymgysylltiad dysgwyr** – mae gan ddysgwyr gyfleoedd i gymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau darparwyr, a gall darparwyr ddangos effeithiolrwydd ac effaith yr ymgysylltiad hwn
ii. **Llais y dysgwr** – ystyried barn dysgwyr ynghylch ansawdd yr addysg drydyddol a gânt
iii. **Ymgysylltiad y corff llywodraethu** – mae'r corff llywodraethu'n ysgogydd allweddol ar gyfer addysg o ansawdd da. Mae'n goruchwylio ansawdd a gwelliant parhaus addysg drydyddol y darparwr yn effeithiol
iv. **Hunanwerthuso** – mae darparwyr yn cyflawni gweithgarwch hunanwerthuso, cynllunio ar gyfer gwella, a myfyrio trylwyr a rheolaidd, a fydd yn sail ar gyfer yr asesiad allanol o ansawdd, a chynllunio ar gyfer gwella'n barhaus
v. **Allanoldeb** – bydd allanoldeb wrth asesu ansawdd a gwerthuso gweithgarwch cynllunio ar gyfer gwella'n barhaus, a fydd yn digwydd yn rheolaidd ac yn cwmpasu ei holl ddarpariaeth, gan gynnwys yr hyn a ddarperir ar ei ran. Bydd darparwyr hefyd yn ceisio allanoldeb trwy fecanweithiau eraill, gan gynnwys eu defnydd ehangach o feincnodi a chyfeirbwyntiau allanol
vi. **Gwella'n barhaus** – mae arfer dda'n cael ei rhannu'n fewnol ac yn allanol i lywio arloesi a rhagoriaeth yn ansawdd y profiad dysgu ar draws pob rhan o'r sector addysg drydyddol
vii. **Dysgu a datblygiad proffesiynol** – mae darparwyr a Medr yn cefnogi dysgu a datblygiad proffesiynol aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol

25. Bydd Medr yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau mewn ymateb i berfformiad gyda'r amod Ansawdd a Gwelliant Parhaus. Gall y gweithgareddau hyn amrywio o ymyrryd i sicrhau cydymffurfedd darparwyr â gofynion o ran y trothwy ar gyfer perfformiad, i hwyluso cydweithio i hybu gwelliant ac arloesi.

26. Mae **Ffigur 2** yn nodi diagram o egwyddorion, conglfeini, a gweithgareddau Medr mewn ymateb.

## *Ffigur 2: Egwyddorion a chonglfeini'r Fframwaith Ansawdd, a sut y gellir dangos tystiolaeth ohonynt*

**◄ Mae pob conglfaen yn ategu deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr ►**

| **Conglfaen** | **Ymgysylltu â Dysgwyr** | **Llais y Dysgwr** | **Ymgysylltiad y Corff Llywodraethu** | **Hunanwerthuso** | **Allanoldeb** | **Gwella'n Barhaus** | **Dysgu a Datblygiad Proffesiynol** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad** | Mae gan ddysgwyr gyfleoedd i gymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau darparwyr, a gall darparwyr ddangos effeithiolrwydd ac effaith yr ymgysylltiad hwn | Ystyried **barn dysgwyr** ynghylch ansawdd yr addysg drydyddol a gânt | Mae'r **corff llywodraethu** yn ymgysylltu'n weithredol ag ystyried ansawdd a gwelliant parhaus addysg drydyddol y darparwr | Mae darparwyr yn cyflawni gweithgarwch **hunanwerthuso**, cynllunio ar gyfer gwella, a myfyrio trylwyr a rheolaidd, a fydd yn sail ar gyfer yr asesiad allanol o ansawdd, a chynllunio ar gyfer gwella'n barhaus | **Allanoldeb** wrth asesu ansawdd a gwerthuso gweithgarwch cynllunio ar gyfer gwella'n barhaus, a fydd yn digwydd yn rheolaidd ac yn cwmpasu ei holl ddarpariaeth, gan gynnwys yr hyn a ddarperir ar ei ran | Mae arfer dda'n cael ei rhannu'n fewnol ac yn allanol i **lywio arloesi a rhagoriaeth** yn ansawdd y profiad dysgu ar draws pob rhan o'r sector addysg drydyddol | Mae darparwyr a Medr yn cefnogi **dysgu a datblygiad proffesiynol** aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol |
| **Sut y dangosir tystiolaeth ohonynt** | • Cydymffurfio â'r cod ymgysylltu â dysgwyr<br>• Cynlluniau diogelu dysgwyr effeithiol | • Data a deilliannau o arolygon cenedlaethol<br>• Gwerthusiad o effaith llais y dysgwr ar ansawdd<br>• Cynlluniau gweithredu wedi'u datblygu gyda dysgwyr i wella boddhad dysgwyr<br>• Prosesau i'r darparwr roi adborth i ddysgwyr am gamau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i bryderon a godwyd | • Goruchwyliaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar ddeilliannau dysgwyr gan y corff llywodraethu<br>• Goruchwyliaeth effeithiol ar ansawdd a gwella'n barhaus gan y corff llywodraethu<br>• Capasiti ac arbenigedd y corff llywodraethu i ymgysylltu'n effeithiol ag ansawdd a gwella'n barhaus | • Dadansoddiad o ddeilliannau, cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau ar gyfer dysgwyr<br>• Hunanwerthuso rheolaidd mewn partneriaeth gyda dysgwyr a staff, yn seiliedig ar ganllawiau y cytunwyd arnynt<br>• Defnyddio hunanwerthuso i wella profiad dysgwyr | • Ymgysylltu ag asesu ansawdd yn allanol, gan gynnwys dadansoddi data<br>• Cynyddu cysondeb asesiadau ansawdd allanol ar draws addysg drydyddol<br>• Gwerthusiad o sut y mae asesu ansawdd yn allanol yn goleuo gwelliant parhaus | • Strategaethau hunanwerthuso a gwella'n barhaus darparwyr, mesurau perfformiad a gwerthusiad o'r effaith ar ddeilliannau dysgwyr<br>• Ymgysylltiad dysgwyr a staff â chynlluniau gwella'n barhaus<br>• Adolygiadau datblygiadol<br>• Ymgysylltiad â rhwydweithiau perthnasol i rannu arfer effeithiol a Gwerthusiad o dystiolaeth<br>• Cydweithio i fynd i'r afael â heriau cyffredin<br>• Prosesau ansawdd mewnol effeithiol<br>• Gwerthusiad o dystiolaeth ansoddol a meintiol, gan gynnwys deilliannau dysgwyr | • Gwerthusiad o gefnogaeth ar gyfer dysgu proffesiynol gan gynnwys yr effaith ar ddeilliannau dysgwyr<br>• Cydweithio ystyrlon ag undebau llafur a staff<br>• Cydweithio traws-sector a rhannu arferion da<br>• Strategaethau dysgu proffesiynol<br>• Cynorthwyo staff i gyrraedd safonau proffesiynol |

**Deilliannau Asesiadau Ansawdd Allanol (yn gylchol)**

**Gwybodaeth (yn barhaus)**

**Mesurau perfformiad (yn flynyddol)**

**Monitro (yn flynyddol) gan gynnwys Asesiad Risg Darparwyr a Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol Darparwyr**

**Ymyrryd (fel bo'r angen) fel y nodir yn y Datganiad Ymyrryd**

**Rolau a chyfrifoldebau Medr a darparwyr lle mae ansawdd addysg drydyddol yn y cwestiwn**

27. Mae'r adran hon yn nodi pob conglfaen, ynghyd â'r camau gweithredu y bydd Medr yn eu cymryd a'r modd y gall darparwyr addysg drydyddol ddangos tystiolaeth o ansawdd da ym mhob maes.

(i) <u>Ymgysylltu â dysgwyr</u>

28. Mae'r conglfaen hwn yn canolbwyntio ar ennyn ymgysylltiad dysgwyr â phrosesau a chamau gweithredu eu darparwyr i sicrhau a gwella ansawdd eu profiad dysgu.

29. Bydd Medr yn:

- datblygu Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, monitro cydymffurfedd darparwyr â'r Cod, a gwerthuso ei effaith
- gweithio gyda dysgwyr, darparwyr a rhanddeiliaid i adnabod a rhannu arferion da ym maes ymgysylltu â dysgwyr
- buddsoddi mewn adnoddau a chymorth ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr, gan gynnwys hyfforddiant ac arweiniad wedi'u teilwra i anghenion gwahanol rannau o'r sector trydyddol a'u dysgwyr
- disgwyl i sefydliadau sy'n gyfrifol am arolygu ac adolygu ymgysylltu â dysgwyr ac ystyried eu barn, a
- datblygu Canllawiau ynghylch Cynlluniau Diogelu Dysgwyr a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ymgysylltu â'u dysgwyr ar faterion perthnasol ac wrth ddatblygu cynlluniau diogelu dysgwyr

30. Gall darparwyr ddangos hyn trwy'r canlynol:

- cydymffurfio â'r cod ymgysylltu â dysgwyr
- sicrhau bod ganddynt gynlluniau diogelu dysgwyr effeithiol ar waith lle y bo angen, a chymorth priodol ar gyfer trosglwyddiadau dysgwyr

(ii) <u>Llais y dysgwr</u>

31. Mae'r conglfaen hwn yn canolbwyntio ar ystyried barn dysgwyr ynghylch ansawdd yr addysg drydyddol a gânt. Mae llais y dysgwr yn allweddol i asesu ansawdd a chyflawni gwelliant parhaus. Mae deall barn a phrofiadau dysgwyr yn galluogi darparwyr i lywio gwelliant parhaus a sicrhau deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr yn y pen draw.

32. Bydd Medr yn:

- ystyried barn a blaenoriaethau dysgwyr wrth ddatblygu ei bolisïau a'i gynlluniau ei hun
- gweithio gyda dysgwyr, y sector trydyddol a rhanddeiliaid i ddatblygu arolygon cenedlaethol i fynd ati mewn modd systematig i gasglu barn dysgwyr ar draws AB, prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned, chweched dosbarth, ac addysg uwch ôl-raddedig, ochr yn ochr â'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr presennol ar gyfer addysg uwch israddedig

- dadansoddi data arolygon dysgwyr i adnabod themâu, arferion da a gwendidau a defnyddio hyn, ochr yn ochr â dangosyddion eraill gan gynnwys tystiolaeth ansoddol o adborth a chwynion gan ddysgwyr, i fonitro ansawdd a mynd ar ôl meysydd sy'n peri pryder
- gwerthuso effaith llais y dysgwr ar ei brosesau a'i swyddogaethau ei hun

33. Gall darparwyr ddangos hyn trwy'r canlynol:

- defnyddio barn dysgwyr, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig a'r rhai o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn eu prosesau sicrhau ansawdd a'u strategaethau ar gyfer gwelliant parhaus
- gweithio gyda dysgwyr wrth fynd ati'n barhaus i ddatblygu a chyflawni cynlluniau gweithredu i wella boddhad dysgwyr lle y bo'n ofynnol, ac
- annog a chynorthwyo eu dysgwyr i gymryd rhan mewn arolygon a'u hysbysu am yr hyn sydd wedi digwydd mewn ymateb i'w barn

(iii) <u>Ymgysylltiad y corff llywodraethu</u>

34. Mae hyn yn cydnabod yr amod rheoleiddiol penodol sy'n ymwneud â llywodraethu ac yn amcanu at egluro sut y mae'n **rhaid** i ddarparwyr ystyried ansawdd yn y cyswllt hwn (h.y. bod '**rhaid** i ddarparwyr fod â threfniadau llywodraethu a rheoli digonol, gan gynnwys rheoli ariannol'). Bydd hyn yn sicrhau bod y corff llywodraethu yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol o ansawdd a gwelliant parhaus, er mwyn sicrhau bod deilliannau da i ddysgwyr yn cael eu blaenoriaethu'n briodol gan y darparwr.

35. Bydd Medr yn:

- ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu pob darparwr fod â goruchwyliaeth effeithiol ar ddatblygu a mynd ati'n effeithiol i gyflawni strategaethau a chynlluniau ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd holl raglenni'r darparwr
- ei gwneud yn ofynnol bod darparwyr yn rhoi sicrwydd blynyddol ynghylch goruchwyliaeth ar ansawdd addysg drydyddol gan y corff llywodraethu a pherfformiad yn erbyn ei strategaeth a chynlluniau cymeradwy

36. Gall darparwyr ddangos hyn trwy'r canlynol:

- sicrhau eu bod yn ymdrin ag ansawdd o fewn eu hystyriaethau o ran sut i gwrdd â'r amod sy'n ymwneud â chyrff llywodraethu
- mynd ati'n weithredol i ennyn ymgysylltiad y corff llywodraethu â datblygu a goruchwylio eu strategaethau a chynlluniau ar gyfer asesu ansawdd yn fewnol a gwella'n barhaus

(iv) <u>Hunanwerthuso</u>

37. Mae hunanwerthuso yn rhan allweddol o gyfrifoldeb pob darparwr i reoli ei weithgarwch sicrhau ansawdd a gwella'n barhaus ei hun. **Dylai** pob darparwr fynd ati'n rheolaidd i werthuso ansawdd a safonau'r rhaglenni y mae'n eu darparu, a sut y gellir eu gwella, gyda dadansoddiad trylwyr o ddata a thystiolaeth ar ddeilliannau dysgwyr a boddhad dysgwyr. Bydd yr hunanwerthusiad hwn hefyd yn darparu mewnbwn pwysig ar gyfer asesu ansawdd yn allanol, ac mae mabwysiadu dull

trydyddol yn darparu cyfle i gyflawni mwy o gyffredinrwydd rhwng dulliau ar draws y sector. Gorwedd ei bwysigrwydd fel conglfaen yn ei allu i lywio gwelliant yn neilliannau dysgwyr trwy fyfyrio ar sail tystiolaeth.

38. Bydd Medr yn:

- cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer hunanwerthuso, mewn partneriaeth gydag Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch
- Hwyluso mynediad at ddadansoddiadau data i ddarparwyr mewn modd amserol
- gweithio gyda'r sector a phartneriaid i sicrhau bod gweithgareddau monitro'n ategu, yn hytrach na dyblygu, adolygiadau allanol presennol

39. Gall darparwyr ddangos hyn trwy'r canlynol:

- cynnal proses hunanwerthuso reolaidd mewn partneriaeth gyda dysgwyr, undebau llafur cydnabyddedig a staff, fel rhan o'u cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd yn fewnol, a llywio gweithgarwch myfyrio a gwella'n barhaus ar draws y darparwr. Mae hyn yn ystyried yr holl ddarpariaeth, gan gynnwys yr hyn a gyflwynir mewn partneriaeth ag eraill, ac iaith y ddarpariaeth (Saesneg a/neu Gymraeg), ac yn sail i asesiad ansawdd allanol.
- dadansoddi eu data, gan gynnwys data a roddwyd iddynt gan Medr, a dangos eu dealltwriaeth am eu cryfderau, eu gwendidau, eu cyfleoedd a'u bygythiadau trwy'r broses hon, gan gynnwys trwy ddefnyddio cyfeirbwyntiau allanol, ac yng nghyd-destun y darparwr
- defnyddio deilliannau hunanwerthuso fel rhan o raglen strategol o weithgarwch i wella profiad a deilliannau dysgwyr

(v) <u>Allanoldeb</u>

40. Mae'r conglfaen hwn yn cydnabod dulliau arolygu ac adolygu cyfredol ac yn amcanu at wella gwerth prosesau presennol, gan leihau dyblygu. Ei nod yw sicrhau bod darparwyr yn cael eu hasesu'n annibynnol, gan gynnwys eu heffeithiolrwydd o ran llywio deilliannau da ar gyfer dysgwyr. Nod Medr yw lleihau baich, a chyfnerthu prosesau asesu ansawdd lle y bo'n bosibl, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n cael asesiadau ansawdd allanol lluosog. Mae'r conglfaen hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio a gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr a sefydliadau eraill.

41. Bydd Medr yn:

- gweithio gyda darparwyr a chyrff sy'n cynnal asesiadau ansawdd allanol i sicrhau bod asesiad o'r fath yn gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur ac yn amserol; yn ychwanegu gwerth ar gyfer darparwyr ac yn cael effaith o ran llywio gwelliant; lle y bo'n briodol, ei fod yn cyd-fynd â safonau ansawdd rhyngwladol; a, lle mae darparwyr yn ddarparu dysgu ar draws rhannau lluosog o'r sector addysg drydyddol, y defnyddir dull cyfannol o gynnal gweithgareddau sicrhau ansawdd allanol
- gweithio gyda chyrff sy'n cynnal asesiadau ansawdd allanol i lywio cysondeb cynyddol â'r broses hon ar draws pob rhan o addysg drydyddol, a dod â

chydlyniad i drefniadau ar gyfer darparwyr sy'n cael asesiadau ansawdd allanol lluosog

42. Gall darparwyr ddangos hyn trwy'r canlynol:

- ymgysylltu'n weithredol ag asesiadau ansawdd allanol, gan gynnwys darpariaeth a roddir ar eu rhan
- ceisio cyfleoedd i gydweithio â chydweithwyr, darparwyr eraill a rhannau eraill o'r sector lle mae hyn yn ychwanegu gwerth ac i oleuo gwelliant parhaus, a gwerthuso effaith yr ymgysylltu hwn
- defnyddio meincnodi a chyfeirbwyntiau allanol fel y bo'n briodol i oleuo gwelliant parhaus

(vi) Gwella'n barhaus

43. Mae'r conglfaen hwn yn adeiladu ar ddulliau cyfredol o wella'n barhaus. Mae Medr yn annog darparwyr a rhanddeiliaid i argymell blaenoriaethau ar gyfer gwella'n barhaus fel rhan o raglen barhaus o gamau gweithredu cyfunol, ar draws y sector. Bydd hyn yn cynnwys ffocws ar ddeilliannau dysgwyr.

44. Bydd Medr yn:

- gwreiddio gwelliant parhaus fel rhan o asesu ansawdd yn allanol (h.y. sicrhau ei fod yn rhan o'r fethodoleg)
- hybu gwelliant parhaus ar gyfer pob iaith y rhoddir darpariaeth ynddi, trwy weithgareddau megis mecanweithiau a rhwydweithiau ymgysylltu, cyngor a chanllawiau, a thrwy adolygiadau datblygiadol (e.e. thematig/ daearyddol)
- defnyddio canfyddiadau adolygiadau ac asesiadau allanol i adnabod themâu cyffredin a meysydd cyffredin o ddiddordeb yn y sector trydyddol
- hwyluso'r broses o rannu arfer effeithiol drwy'r sector trydyddol i gyd i ategu gwelliant parhaus systematig
- chwilio am dystiolaeth ansoddol a meintiol yn weithredol a'i gwerthuso, gan gynnwys mesurau perfformiad,[6] er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus a'i gyflawni
- datblygu a hyrwyddo cyngor a chanllawiau i lywio ac ategu gwelliant ar draws y sector addysg drydyddol, yn ogystal ag o fewn darparwyr unigol, fel y bo angen

45. Gall darparwyr ddangos hyn trwy'r canlynol:

- datblygu, cyflawni a pharhau i adolygu strategaeth ar gyfer gwella'n barhaus, yn seiliedig ar eu hunanwerthusiad
- ymgysylltu â'u dysgwyr a'u staff i ddatblygu a chyflawni strategaethau ar gyfer gwella'n barhaus gyda deilliannau mesuradwy
- defnyddio eu strategaeth ar gyfer gwella'n barhaus i geisio gwella eu darpariaeth, mewn perthynas â chyd-destun eu rhan hwy o'r sector

[6] Unwaith y bydd yr ymgynghoriad hwnnw wedi'i gwblhau a'r canlyniadau wedi'u rhoi ar waith

- ymgysylltu â rhwydweithiau sy'n berthnasol i'w sector/cenhadaeth i rannu a dysgu o welliant parhaus i rannu arferion da a llywio arloesi a rhagoriaeth yn ansawdd y profiad dysgu ar draws pob rhan o'r sector addysg drydyddol
- gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â heriau a rennir lle bydd hyn yn ychwanegu gwerth
- cyfranogi'n weithredol mewn adolygiadau datblygiadol (e.e. thematig/ daearyddol), gan ymateb i ganfyddiadau a myfyrio ynghylch eu harfer fel y bo'n briodol

(vii) <u>Dysgu a datblygiad proffesiynol</u>

46. Mae'r conglfaen hwn yn canolbwyntio ar ddysgu a datblygiad proffesiynol aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol, i sicrhau eu bod yn gallu ategu deilliannau da ar gyfer dysgwyr. Mae llais y gweithlu'n eithriadol o bwysig yn hyn ac mae'n cael ei gynnwys mewn darnau eraill o waith Medr, gan gynnwys hybu cydweithio rhwng darparwyr ac undebau llafur. Bydd Medr yn gweithio gyda chyrff eraill sy'n darparu dysgu a datblygiad proffesiynol i sicrhau dull cydgysylltiedig.

47. Bydd Medr yn:

- gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi disgwyliadau mewn perthynas â dysgu a datblygiad proffesiynol ar gyfer staff y sector trydyddol
- archwilio'r buddsoddiad a'r cymorth y mae eu hangen ar draws y sector trydyddol ar gyfer dysgu proffesiynol a datblygu arweinwyr
- rhoi anogaeth ar gyfer cydweithio i ddarparu dysgu a datblygiad proffesiynol lle y bo'n briodol
- gweithio ar y cyd i wella maint ac ansawdd y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

48. Gall darparwyr ddangos hyn trwy'r canlynol:

- cynnig cyfleoedd priodol i ymgysylltu â dysgu a datblygiad proffesiynol, a chynorthwyo'r holl staff i fanteisio arnynt, gan gynnwys staff amser llawn, rhan-amser, parhaol a thros dro, yn ogystal â'r rhai mewn darparwyr sydd wedi'u his-gontractio
- cydweithio ag undebau llafur cydnabyddedig a staff i ddatblygu strategaethau dysgu proffesiynol, a gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith buddsoddiadau mewn dysgu proffesiynol
- rhoi cyfleoedd a chymorth i staff wella darpariaeth Gymraeg a defnydd o'r Gymraeg
- rhannu arferion da mewn dysgu a datblygiad proffesiynol, gan archwilio dulliau cydweithredol lle bo modd
- cynorthwyo'r holl staff i gyrraedd safonau proffesiynol priodol, lle y bo'n berthnasol

## Rolau a chyfrifoldebau partïon eraill

49. Mae Estyn yn arolygu sefydliadau addysg bellach, darpariaeth addysg gychwynnol athrawon, partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a deiliaid contractau a gomisiynwyd i ddarparu prentisiaethau. Mae'n arolygu'r chweched dosbarth mewn ysgolion fel rhan o arolygiad ysgol gyfan. Mae hefyd yn arolygu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol.

50. Ers 2018, mae Estyn hefyd wedi arolygu'r ddarpariaeth 'Cymraeg i Oedolion' a gynigir gan ddarparwyr Dysgu Cymraeg. Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i'r sector addysg drydyddol ac yn cael ei hariannu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Nid yw darpariaeth Dysgu Cymraeg o fewn cwmpas Fframwaith Ansawdd Medr ac mae ganddi ei fframwaith ansawdd ei hun. O 1 Awst 2027, bydd y cyfrifoldeb am sicrhau darpariaeth Dysgu Cymraeg yn trosglwyddo i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol newydd (yr "Athrofa") a chyda hynny'r cyfrifoldeb am ansawdd a gwelliant parhaus yn y Sector Dysgu Cymraeg.

51. Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch yn cynnal adolygiadau gwella ansawdd o ddarparwyr addysg uwch Cymru, ynghyd ag ymweliadau cyswllt sefydliadol blynyddol ac adolygiadau rhannol ac ymchwiliadau i bryderon yn ôl yr angen. Yr Asiantaeth yw gwarcheidwad cyfeirbwyntiau'r sector AU gan gynnwys Cod Ansawdd y DU, Datganiad Meincnodau Pwnc a Datganiadau Nodweddion. Mae'r Asiantaeth hefyd ar y Gofrestr Sicrhau Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg Uwch. Mae'n gwneud gwaith ar ran Medr i ategu gweithgarwch sicrhau a gwella ansawdd.

52. Mae Estyn a'r Asiantaeth ill dwy'n cynnal adolygiadau thematig a gomisiynir gan Medr.

53. Cyllidir awdurdodau lleol gan Medr ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth ac mewn dysgu oedolion yn y gymuned, ac mae ganddynt gyfrifoldeb am oruchwylio darpariaeth yn y ddwy ran o'r sector. Mae eu rôl yn cynnwys cynllunio strategol, datblygu cynlluniau strategol Cymraeg mewn Addysg, rhoi cymorth i wella ansawdd dysgu ac addysgu, a darparu atebolrwydd am ddefnyddio cyllid cyhoeddus. Maent hefyd yn darparu ystod o wasanaethau cymorth penodol ychwanegol i ysgolion, gan gynnwys mewn perthynas â sgiliau sylfaenol ac anghenion dysgu ychwanegol.

54. Mae gan gyrff eraill rolau yn ansawdd addysg drydyddol hefyd, er enghraifft Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio, Cymwysterau Cymru, sefydliadau arholi a dyfarnu, yr Arolygiaeth Ysgolion Catholig, Yr Eglwys yng Nghymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cyngor y Gweithlu Addysg, cyrff proffesiynol, a darparwyr dysgu a datblygu proffesiynol. Bydd Medr yn ystyried deilliannau ymgysylltiadau gan y cyrff hyn, ac eraill, lle ystyrir y gallai canfyddiadau anffafriol effeithio ar ansawdd darpariaeth addysg drydyddol yn fwy cyffredinol, neu lle adnabuwyd methiant i wella yn dilyn ymgysylltiadau o'r fath. Bydd Medr yn gwneud defnydd llawn o'r ystod hon o dystiolaeth, gyda'r nod o leihau'r baich.

## Prosesau ar gyfer asesu cydymffurfedd â'r amod Ansawdd a Gwella'n Barhaus

55. Bydd Medr yn ceisio gwybodaeth am sut mae darparwyr yn cyflawni darpariaeth o ansawdd da ac yn ymgysylltu â gwelliant parhaus trwy ei ymarfer ffurflenni sicrwydd

blynyddol.

56. Bydd barn Medr ynglŷn â chydymffurfio â'r Amod Ansawdd a Gwella'n Barhaus yn cwmpasu ehangder llawn y gofynion a'r disgwyliadau a nodir yn yr amod.

57. Mae Medr yn bwriadu defnyddio dull integredig o fonitro ac asesu perfformiad a risg y darparwr ar y cyfan. Byddwn yn gwneud hyn trwy'r canlynol:

- deilliannau asesu ansawdd yn allanol
- monitro data, mesurau perfformiad yn cynnwys tueddiadau
- gwybodaeth

58. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i greu asesiad integredig o berfformiad, ac adnabod a oes materion systemig y mae angen i Medr eu hystyried ar lefel darparwr neu'r sector. Mae hyn yn cynnwys asesu deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a gwahanol grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, lle mae digon o ddata ar gael.

59. Bydd yr asesiad hwn yn rhan o fframwaith sicrwydd Medr, a fydd yn cynnwys ein proses sicrwydd flynyddol, Asesiad Risg Darparwyr, a chydymffurfedd rheoleiddiol ehangach. Yn unol ag arfer presennol, bydd Medr yn rhannu data, dadansoddiad a gwybodaeth berthnasol gydag Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) i lywio asesiadau ansawdd allanol ac adolygiadau thematig, yn unol â'r egwyddor 'casglu unwaith, defnyddio sawl gwaith', er mwyn lleihau'r baich ar ddarparwyr.

60. Bydd y prosesau a gymhwysir yn amrywio i adlewyrchu natur gwahanol rannau o'r sector, a'r wybodaeth a mesurau amrywiol a ddefnyddir. Bydd Medr yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu ar gydymffurfedd ag amodau cofrestru neu gyllid. Bydd Medr hefyd yn defnyddio'r prosesau hyn i adnabod rhagoriaeth ac arferion da, y byddai o fudd eu lledaenu'n ehangach.

<u>Deilliannau asesu ansawdd yn allanol</u>

61. Fel y nodir uchod, bydd Medr yn gweithio gyda darparwyr a chyrff sy'n asesu ansawdd yn allanol i sicrhau bod gweithdrefnau asesu'n gadarn, yn gymesur ac yn amserol; ac yn ychwanegu gwerth ar gyfer darparwyr; ac yn cael effaith o ran llywio gwelliant.

62. Ni fydd unrhyw ddarparwr sy'n cael deilliant sy'n gofyn am ymgysylltiad dilynol dan y prosesau asesu ansawdd allanol cyfredol yn cael ei ystyried yn ddarparwr sy'n dangos ansawdd da nac yn cydymffurfio â gofynion goruchwyliaeth addysgol.

63. Bydd Medr yn adolygu hyn yn gyson wrth i fethodolegau ar gyfer asesu ansawdd yn allanol gael eu diweddaru. Lle ceir newidiadau i drefniadau adolygu ac arolygu yn y dyfodol, bydd Medr yn nodi sut y byddir yn penderfynu a yw deilliannau asesu ansawdd allanol yn dangos ansawdd da, a sut y gellir ymyrryd, lle y bo'n briodol. Byddir yn ymgynghori ynghylch unrhyw ddiweddariadau sylweddol i fethodolegau ar gyfer asesu ansawdd yn allanol.

64. Mae Medr wedi gofyn i Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) ystyried cyfleoedd i sicrhau bod dulliau cyfredol ar gyfer asesu ansawdd yn allanol yn cyd-fynd â'i gilydd yn fwy, ac yn benodol a ellid eu symleiddio i ddarparwyr sy'n destun asesiadau lluosog.

Monitro data

65. Bydd Medr yn ystyried data mewn perthynas ag ystod o ddeilliannau i bennu unrhyw risg i ansawdd addysg drydyddol, gan ddefnyddio data presennol lle y bo ar gael. Mae rhai deilliannau dysgwyr yn cael eu cofnodi trwy brosesau fel RARPA (cydnabod a chofnodi cynnydd a chyflawniad), ac ni fydd wastad yn briodol gwerthuso deilliannau dysgwyr yn feintiol. Mae'r data y bydd Medr yn ei ddefnyddio yn cael ei gasglu'n bennaf o'r Casgliad Data Ôl-16, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a chofnodion yr Awdurdod Safonau Addysg Uwch. Erbyn 2027 mae Medr yn disgwyl y bydd wedi adolygu trefniadau casglu data ac wedi ymgynghori ar fesurau perfformiad a defnyddio meincnodi a throthwyon.

66. Mae data i'w ystyried yn cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

(a) recriwtio
(b) dilyniant
(c) cadw
(d) cwblhau (gan gynnwys ennill cymwysterau)
(e) pryderon rheoleiddio a godwyd gyda Medr (gan gynnwys niferoedd a phatrymau)
(f) arolygon dysgwyr (arolygon mewnol darparwyr, Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol, arolwg llais y dysgwr, yn ôl y galw)
(g) cyrchfannau (cyflogaeth/ addysg/hyfforddiant)

67. Gall data gynnwys data o archwiliadau mewnol ac allanol a gomisiynwyd gan ddarparwyr hefyd, ynghyd ag archwiliadau a gomisiynwyd gan Medr.

68. Lle y bo'n bosibl, bydd Medr yn ystyried data'n holistaidd i sicrhau bod unrhyw ymyrraeth yn seiliedig ar asesiad integredig ac nid elfennau unigol a ystyrir ar wahân.

69. Bydd meincnodau data'n cael eu defnyddio lle y bônt ar gael ac yn briodol, a gall Medr ymyrryd lle mae deilliannau'n sylweddol is na'r meincnod, neu lle mae tuedd ddirywiol yn dynodi bod risg y gallai ansawdd addysg ddod yn annigonol (gweler isod). Yn unol â'r ymrwymiadau yn ein Cynllun Strategol, bydd Medr yn ymgynghori ynghylch ei ddull o ddiffinio deilliannau 'da' ar gyfer dysgwyr. Bydd hyn yn rhan o ddull cydlynol, trosfwaol, gan gyd-fynd â'i nod i leihau baich i'r eithaf.

70. Bydd gwahanol rannau o'r sector yn blaenoriaethu gwahanol fathau o ddeilliannau dysgwyr. Bydd Medr yn ystyried i ba raddau y mae'n bosibl ac yn briodol cyd-destunoli data, gan gynnwys cydnabod demograffeg dysgwyr a nodweddion personol dysgwyr gan gynnwys nodweddion gwarchodedig, dull ac iaith astudio, goblygiadau carfannau bach ac amrywiaeth y sector. Rydym felly'n ystyried bod data'n sbardun ar gyfer sgwrs gyda darparwyr yn y lle cyntaf, i hwyluso dealltwriaeth am gyd-destun. Mae Pwyllgor Ansawdd Medr yn cynghori ynghylch risgiau i

ansawdd addysg, gan gynnwys trwy ystyriaeth reolaidd i dueddiadau mewn data a pherfformiad yn erbyn meincnodau, er mwyn goleuo proses Medr ar gyfer Asesiad Risg Darparwyr.

71. Er bod y Fframwaith Ansawdd yn nodi disgwyliad bod darparwyr yn ymgysylltu â gwella'n barhaus, mae Medr yn cydnabod nad yw gwelliant parhaus o un flwyddyn i'r llall ar draws yr holl fesurau perfformiad yn gyraeddadwy, yn enwedig lle mae gan ddarparwyr ddeilliannau da neu ragorol. Felly, os yw darparwyr yn cyflawni gweithgareddau gwella'n barhaus priodol a bod perfformiad y darparwr yn foddhaol, ni fyddai Medr yn disgwyl cyflawni ymyriadau mewn perthynas â gwella'n barhaus oni bai bod materion wedi cael eu hadnabod wrth edrych ar ddata, gwybodaeth neu ddeilliannau asesiadau ansawdd allanol.

<u>Gwybodaeth</u>

72. Gall Medr ddefnyddio gwybodaeth o brosesau ac ymrwymiadau eraill i lywio ei farn ynghylch a oes risg i ansawdd addysg. Gall hyn gynnwys:

- ffurflenni sicrwydd blynyddol
- pryderon rheoliadol a godwyd gyda Medr gan ddysgwyr, rhieni/gofalwyr, staff, neu gyflogwyr am ansawdd a safonau neu dueddiadau sy'n deillio o ddata ar gwynion, sy'n ymwneud ag ansawdd yr addysg a gyflwynir gan ddarparwr, boed yn uniongyrchol neu drwy drefniant is-gontractio[7]
- Digwyddiadau y mae'n Rhaid eu Hadrodd
- cwynion neu bryderon a godwyd gyda sefydliadau eraill ac a gynhaliwyd ganddynt, megis Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, Y Comisiwn Elusennau, Y Swyddfa Gartref, Comisiynydd y Gymraeg, ymhlith eraill
- cysylltu â sefydliadau eraill megis Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Cyngor y Gweithlu Addysg, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru, Cymwysterau Cymru, Dysgu ac eraill, gan gynnwys trwy weithredu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth fel y bo'n briodol
- deilliannau ymgysylltu â Chyrff Dyfarnu
- Asesiad Risg Darparwr Medr

73. Gall gwybodaeth hefyd gynnwys gwybodaeth gan gyrff eraill sydd â rolau i asesu ansawdd addysg drydyddol, fel y nodir ym mharagraff 54. Bydd Medr yn ystyried gwybodaeth o ddeilliannau ymgysylltiadau'r cyrff hyn â darparwyr, lle ystyrir y gallai canfyddiadau anffafriol effeithio ar ansawdd darpariaeth addysg drydyddol yn fwy cyffredinol, neu lle adnabuwyd methiant i wella yn dilyn ymgysylltiadau o'r fath.

74. Gall gwybodaeth y bydd Medr yn ei chael arwain at asesiad bod risg i ansawdd addysg. Gallai hyn arwain at ofyniad y dylai Medr gynnal, neu gomisiynu, ymchwiliad pellach. Gall Medr ddisgwyl am ganlyniad unrhyw ymchwiliadau a phrosesau sy'n mynd rhagddynt cyn ystyried camau gweithredu cyn arfer ei bwerau ymyrryd fel y nodir yn y Datganiad Ymyrryd.

---

[7] Mae gan Medr gylch gwaith cyfyngedig iawn i ymchwilio i bryderon rheoleiddio ond gall eu defnyddio fel rhan o'r wybodaeth ansoddol y mae'n ei hystyried yn ei waith monitro.

**Ymyrryd**

75. Mae'n ofynnol i Medr gyhoeddi Datganiad Ymyrryd sy'n nodi sut y bydd yn arfer ei bwerau ymyrryd statudol, gan gynnwys mewn perthynas ag ansawdd. Mae hwn yn nodi'r ystod o ysgogiadau y gall Medr eu defnyddio i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ansawdd, safonau a gwella'n barhaus cyn rhoi ei bwerau ymyrryd statudol ar waith. Bydd ymyriadau sy'n ymwneud ag ansawdd yn cael eu hintegreiddio o fewn fframwaith rheoleiddio ehangach Medr.

76. Bydd Medr yn defnyddio dull cymesur a seiliedig ar risg o werthuso cydymffurfedd, a fydd yn canolbwyntio'n bennaf ar y risg i brofiad dysgwyr. Bydd yr ymyriad yn gymesur â'r risg a achosir.

77. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau ymyrryd mewn perthynas â sefydliadau addysg bellach, a gall roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu'r darparwr. Cyn gwneud hynny, rhaid i Weinidogion ymgynghori â Medr. Os yw Medr yn ystyried bod seiliau dros ymyrryd yn bodoli mewn perthynas â sefydliad addysg bellach bydd yn hysbysu'r Gweinidogion ynghylch y farn honno, fel y nodir yn y Ddeddf (Adran 71). Bydd Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi datganiad ar sut y maent yn bwriadu arfer y pwerau hyn.

78. Mae gan Medr y pwerau cyfreithiol i roi cyngor a chynhorthwy i unrhyw berson[8] at ddiben gwella ansawdd yr addysg drydyddol neu'r cwrs trydyddol, neu atal ansawdd yr addysg drydyddol neu'r cwrs trydyddol rhag dod yn annigonol. Ystyrir bod yr ansawdd yn annigonol os nad yw'n ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol y rhai sy'n cael yr addysg neu'n gwneud y cwrs.

79. Gallai ymyrryd gynnwys adolygiadau datblygiadol neu werthusiad ffurfiol o ran neu'r cyfan o addysg drydyddol y darparwr. Gallai adolygiadau o'r fath gael eu cynnal gan Medr, neu gael eu comisiynu gan gyrff asesu ansawdd allanol, neu arbenigwyr allanol.

80. Dan y Ddeddf mae gan Medr bwerau hefyd i ddarparu, neu wneud trefniadau ar gyfer darparu, cyngor neu gynhorthwy ynghylch addysg drydyddol a ddarperir yng Nghymru nad yw wedi ei chofrestru gyda Medr nac yn cael ei chyllido ganddo, er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth, a/neu atal ansawdd darpariaeth rhag dod yn annigonol (Adran 52). Gall Medr hefyd gynnal, neu drefnu i berson arall gynnal, adolygiad o faterion sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol gan ddarparwyr o'r fath.

81. Bydd Medr yn cynnal cyswllt â chyrff cyhoeddus, proffesiynol, rheoleiddio a statudol lle adnabyddir materion ynghylch darpariaeth a achredir neu a gymeradwyir fel arall gan gyrff o'r fath.

82. Bydd Medr yn cyflawni ei swyddogaethau o ran pwysigrwydd amddiffyn rhyddid o fewn y gyfraith i ddarparwyr addysg yng Nghymru i gynnal eu rheolaeth ddyddiol mewn ffordd effeithiol a chymwys. Ni ddylid dehongli unrhyw beth yn y dogfennau rheoleiddio fel ei bod yn ofynnol i gorff llywodraethu darparwr addysg drydyddol

[8] Yn y cyd-destun hwn, mae person yn ddarparwr addysg drydyddol

wneud unrhyw beth sy’n anghydnaws ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol neu gyfyngiad cyfreithiol sy’n berthnasol i’r corff llywodraethu yn rhinwedd y ffaith bod y darparwr yn elusen, neu â dogfennau llywodraethu’r darparwr.

**Camau nesaf**

83. Bydd y Fframwaith hwn yn dod i rym ar 1 Awst 2026 (1 Awst 2027 ar gyfer darparwyr prentisiaethau).

84. Bydd Medr yn adolygu’r Fframwaith yn gyson, ac yn ei ddiwygio fel y bo angen, yn amodol ar ymgynghori. Bydd darparwyr yn cael eu hysbysu ynghylch unrhyw ddiwygiadau gan gael rhybudd digonol i’w galluogi i gynllunio, cydymffurfio ac ymgysylltu â dysgwyr/rhanddeiliaid. Bydd Medr yn cyhoeddi diweddariadau ac yn hysbysu rhanddeiliaid pan fydd diweddariadau’n cael eu gwneud i’r fframwaith a/neu fethodolegau ar gyfer asesu ansawdd yn allanol.

## Atodiad 1

### Fframwaith Ansawdd: deddfwriaeth a chanllawiau ychwanegol sy'n ymwneud ag ansawdd, sy'n benodol i bob rhan o'r sector addysg drydyddol

**Cyflwyniad**

1. Mae'r Fframwaith Ansawdd yn amcanu at hybu cysondeb a chydlyniad ar draws y sector addysg drydyddol, a lleihau dyblygu i'r eithaf, gan hefyd gydnabod bod gwahaniaethau o ran sut y bydd dulliau ansawdd yn cael eu rhoi ar waith ar draws y sector trydyddol.

2. Mae paragraff 6 o'r Fframwaith yn nodi amrywiaeth o ddeddfwriaeth a gofynion eraill sy'n berthnasol i ddarparwyr. Mae'r atodiad hwn yn darparu manylion y ddeddfwriaeth, y dogfennau allweddol a'r canllawiau ychwanegol sy'n berthnasol i rannau penodol yn unig o'r sector trydyddol (ni fwriedir iddo fod yn gynhwysfawr). Efallai y bydd darnau eraill o ddeddfwriaeth neu offerynnau llywodraeth sy'n berthnasol i sectorau penodol, a chyfrifoldeb pob darparwr yw sicrhau eu bod yn cynnal goruchwyliaeth ar y gofynion y maent yn ddarostyngedig iddynt.

.

**Darpariaeth chweched dosbarth**

3. Mae darpariaeth chweched dosbarth yn rhan o ysgolion, ac felly hefyd yn ddarostyngedig i'r canlynol:

- Deddf Addysg 2005
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021
- Gofynion a nodir yn y telerau ac amodau cyllid
- Casglu Data ôl-16: nodiadau cwblhau technegol
- Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

4. **Dylai** ysgolion â chweched dosbarth ystyried cyngor a chanllawiau sy'n ymwneud ag ansawdd a gyhoeddir gan sefydliadau perthnasol hefyd, gan gynnwys Estyn.

**Prentisiaethau**

5. **Dylai** darparwyr prentisiaethau hefyd ystyried y canlynol:

- Deddf Dysgu a Sgiliau 2000
- Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009
- Fframwaith Rhaglen Comisiynu Prentisiaethau Cymru
- Gofynion a nodir yn llythyr blynyddol y Rhaglen Comisiynu Prentisiaethau
- Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW)
- Llawlyfr Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a'r egwyddorion rheoli data[9]

[9] Mae angen cyfrif Llawlyfr Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru i gael mynediad at y ddogfen.

6. **Dylai** darparwyr prentisiaethau hefyd ystyried cyngor ac arweiniad mewn perthynas ag ansawdd a gyhoeddir gan sefydliadau perthnasol, gan gynnwys Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Colegau Cymru ac Estyn.

**Addysg bellach**

7. **Dylai** darparwyr addysg bellach hefyd ystyried y canlynol:

- Deddf Dysgu a Sgiliau 2000
- Gorchymyn Corfforaethau Addysg Bellach (Disodli Offerynnau Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraethu) (Cymru) 2006 (2006 Rhif 13) (heb gynnwys Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant ac Addysg Oedolion Cymru)
- Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009
- Gofynion a nodir yn y telerau ac amodau cyllid
- Fframwaith Cyllido Ôl-16: Canllaw a chyfeirlyfr rhaglenni
- Llawlyfr Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a'r egwyddorion rheoli data[10]

8. **Dylai** ddarparwyr addysg bellach ystyried cyngor a chanllawiau sy'n ymwneud ag ansawdd a gyhoeddir gan sefydliadau perthnasol hefyd, gan gynnwys Colegau Cymru ac Estyn.

**Addysg uwch**

9. **Dylai** darparwyr addysg uwch hefyd ystyried y canlynol:

- aliniad â'r Fframweithiau ar gyfer cymwysterau addysg uwch
- cydymffurfedd ag egwyddorion Cod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch, ynghyd â datganiadau nodweddion a datganiadau meincnodau pwnc, lle y bo'n briodol
- cyfranogiad yng nghynllun Gwerthuso a Gwella Ansawdd Addysg Drawswladol y DU (QE-TNE) yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch
- alinio trefniadau sicrhau ansawdd mewnol â'r Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG)
- gofynion a nodir yn yr amodau cofrestru
- cyngor ar gyfraith defnyddwyr ar gyfer darparwyr addysg uwch
- cydymffurfedd â Deddf Addysg 1994 a'r disgwyliadau ar gyfer cynrychiolaeth myfyrwyr a chymorth i undebau

10. **Dylai** darparwyr addysg uwch ystyried cyngor a chanllawiau sy'n ymwneud ag ansawdd a gyhoeddir gan sefydliadau perthnasol hefyd, gan gynnwys Universities UK a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA), ac ymgysylltu â gweithgareddau i ddiogelu bri rhyngwladol y brand addysg uwch lle y bo'n berthnasol.

Bydd trefniadau asesu ansawdd allanol, fel y'u nodir gan Medr, yn parhau i gyd-fynd â'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd.

---

[10] Mae angen cyfrif Llawlyfr Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru i gael mynediad at y ddogfen.

11. Mae'r Cyngor Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch y DU yn fforwm a berchnogir gan y sector ar gyfer y pedair gwlad ar faterion sy'n ymwneud ag ansawdd a safonau mewn addysg uwch. Mae ganddo oruchwyliaeth ar ymrwymiad ar y cyd y DU i egwyddorion ansawdd ac mae'n defnyddio dull sy'n cwmpasu'r DU gyfan i ddathlu'r hyn sy'n gyffredin ar draws y gwledydd a'r systemau rheoleiddio.

**Dysgu oedolion yn y gymuned**

12. **Dylai** darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned hefyd ystyried y canlynol:

- Deddf Dysgu a Sgiliau 2000
- Manyleb Rhaglen Dysgu Cymunedol i Oedolion
- Gofynion a nodir yn y telerau ac amodau cyllid
- Fframwaith Cyllido Ôl-16: Canllaw a chyfeirlyfr rhaglenni
- Llawlyfr Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a'r egwyddorion rheoli data[11]
- Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned: Offeryn ar gyfer Ymarfer a Darpariaeth Effeithlon

13. **Dylai** darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned ystyried cyngor a chanllawiau sy'n ymwneud ag ansawdd a gyhoeddir gan sefydliadau perthnasol hefyd, gan gynnwys Y Sefydliad Dysgu a Gwaith ac Estyn.

[11] Mae angen cyfrif Llawlyfr Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru i gael mynediad at y ddogfen.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**